Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

TAFLEN FFEITHIAU CYDRADDOLDEB A HIL (TARDDIAD ETHNIG NEU GENEDLAETHOL, LLIW NEU GENEDLIGRWYDD)

Cyflwyniad

Mae hil yn 'nodwedd warchodedig' yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu bod person wedi'i ddiogelu gan y gyfraith rhag gwahaniaethu sy'n ymwneud â'ch ethnigrwydd, eich cenedligrwydd neu'ch lliw. Mae Cymru'n llai amrywiol o ran ethnigrwydd na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae 87.5% o boblogaeth gwledydd Prydain yn adnabod eu hunain fel 'gwyn Prydeinig' ond mae'r ffigur hwn yn codi i 95% yng Nghymru. Ers y cyfrifiad diwethaf yn 2001 mae poblogaeth lleiafrifoedd ethnig Cymru wedi parhau'n gyson. Mae data cyfrifiad 2011 yn dangos bod tua 27,000 o bobl hŷn o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

Y materion

Mae'r boblogaeth hŷn ymysg y lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn grŵp ar y cyrion. Mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a gwneuthurwyr polisi wedi tybio y caiff anghenion yr adran hon o'r boblogaeth sy'n heneiddio eu diwallu gan deuluoedd a chymunedau. Maen nhw hefyd yn aml wedi labelu'r grŵp yma fel un 'anodd ei gyrraedd'.

Mae nifer o'r tybiaethau yma am arferion cymdeithasol-ddiwylliannol a dulliau confensiynol o ofalu am aelodau hŷn o rai grwpiau ethnig neu grefyddol yn fwyfwy amherthnasol. Mae grymoedd economaidd a symudiadau mewn trefniadau teuluol yn golygu nad ydy dulliau traddodiadol o ddiwallu anghenion pobl hŷn mor hawdd i'w cyflawni bellach.

Mae yna rywfaint o ddealltwriaeth o'r angen am wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i rai grwpiau. Er hynny, mae cwestiwn defnyddio terminoleg briodol yn fater sydd wedi effeithio ar gysylltiadau hiliol. I lawer o grwpiau ethnig a chrefyddol mae'r term 'hynafgwr' yn cael ei ddefnyddio i

ddisgrifio statws a pharch. Yn yr un modd, er bod yna drafodaeth ymysg sylwedyddion ynghylch ‘cywirdeb gwleidyddol’ y term yma, fe fydd llawer o bobl Affro-Caribïaidd hŷn yn cyfeirio atyn nhw’u hunain fel pobl ‘liw’. Mae’r broblem yma yn ei hamlygu ei hun amlaf yn y drafodaeth barhaus am y defnydd o’r termau BME (du a lleiafrifoedd ethnig) a BAME (du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig). Y ffordd symlaf i benderfynu defnyddio’r naill neu’r llall yw seilio’r penderfyniad ar gymysgedd y gynulleidfa ond y pwynt ydy bod terminoleg yn gallu dod yn ganolog i fethiannau mewn ymgysylltu ac mewn cyflenwad gwael o wasanaethau, neu ddim cyflenwad o gwbl. Gall yr ofn o beidio â gwneud pethau’n gywir arwain at ddiffyg gweithredu llwyr gan adael rhai grwpiau o bobl hŷn mewn lleiafrifoedd yn anymwybodol hyd yn oed ynglŷn â’r gwasanaethau sylfaenol.

Mae pobl hŷn o leiafrifoedd ethnig yn agored i wahaniaethu ar lawer lefel (gwahaniaethu lluosog) wrth iddyn nhw heneiddio ond am eu bod efallai wedi derbyn y rhagfarn y maen nhw wedi ei wynebu gydol eu hoes maen nhw’n llawer llai tebygol o roi gwybod am wahaniaethu ar sail hil nac ar sail oedran. Gall creithiau seicolegol oes o wahaniaethu hefyd fod yn berthnasol yma. Yn aml mae ystyriaethau diwylliannol a chrefyddol yn cael eu hanwybyddu mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol a dydyn nhw ddim yn cael eu cydnabod fel y rheswm dros ofid, iselder, pryder a cholli pwysau.

Bydd llawer o bobl hŷn o leiafrifoedd ethnig yn wynebu anawsterau gyda phensiynau ac mae effeithiau cyfraddau uchel o ddiweithdra a chyflogau isel yn parhau yn eu henaint. Mae 35% o bobl hŷn Bangladeshi a Phacistanaidd yn y ddau grŵp uchaf o ddosbarthiad tlodi.

Casgliad

Yn y brifddinas mae un ar ddeg mlynedd o wahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng y wardiau mwyaf cyfoethog yng ngogledd y ddinas a’r wardiau yn y de, lle mae rhannau mawr o boblogaeth y lleiafrifoedd ethnig yn byw.

Mae rhethreg a dyfodiad hierarchaeth o gydraddoldebau wedi arwain at yr honiad ffug ein bod wedi cyflawni llawer mwy nag yr ydym wedi ei gyflawni mewn gwirionedd o ran cysylltiadau hiliol. Mae’n bosibl mai pobl hŷn yn y lleiafrifoedd ethnig sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef canlyniadau’r gamdybiaeth yma.

I weld y gronfa dystiolaeth ar gyfer y daflen ffeithiau hon a rhagor o adnoddau ewch i www.olderpeoplewales.com